



north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

23/10/2020

Teitl: Cyllideb Refeniw 2020/21 - Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2020)

Awdur: Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

1. Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu manylion y gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2020/21 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
- 1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragamcanir yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

2. Y Penderfyniad a Geisir

- 2.1 **Derbyn a nodi Adolygiad Ail Chwarter y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2020/21.**

3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

- 3.1 Nodi tanwariant o £78,452 a ragwelir yn 2020/21. Gellir trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi. Am wasanaeth sydd newydd ei sefydlu yng nghyd-destun Covid-19, ystyrir fod y tanwariant o 5% a ragwelir yn dderbyniol.

4. Cefndir

- 4.1 Yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2020, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais ei gyllideb ar gyfer 2020/21 o £1,673,690. Roedd hyn yn cynnwys £1,468,420 ar gyfer y Swyddfa Rhaglen,
-

£155,770 ar gyfer gwasanaethau cefnogol y Corff Atebol a £49,500 ar gyfer y Cyd-bwyllgor. Daeth y cyfraniadau ariannol a gyllidebwyd gan gyfraniadau partneriaid, arian grant Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF), y gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi a grant Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru). Paratowyd y gyllideb ar sail y wybodaeth a oedd yn wybodus ar y pryd, gyda'r disgwyliad y caiff ei diweddarw wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg.

- 4.2 Cadarnhaodd Adroddiad Alldro 2019/20 a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais ar 12 Mehefin 2020 mai £161,316 oedd tanwariant terfynol y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Trosglwyddwyd y swm yma i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi, i roi cyfanswm balans o £497,529.
- 4.3 Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol blwyddyn ariannol 2020/21, a chyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Gweithredol a chyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais.

5. Gwariant ac incwm yn 2020/21

- 5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2020/21, ynghyd â rhagamcaniad o'r alldro blwyddyn lawn yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
- 5.2 Ar ddiwedd yr ail chwarter, y sefyllfa wirioneddol net oedd gwaged o £323,787 (wedi'i effeithio gan Covid-19).
- 5.3 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21 yn danwariant o £78,452.

Swyddfa Rhaglen

- 5.4 Mae rhagamcan o danwariant net o £427,000 ar gyfer y Swyddfa Rhaglen yn 2020/21, yn bennaf yn sgil oedi wrth benodi i swyddi o'i gymharu â'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer yn wreiddiol. Yn ogystal, mae Covid-19 wedi achosi gostyngiad mewn gwariant dan benawdau gwariant megis costau teithio a chynhaliadaeth, hyfforddiant, ymgysylltu a chyfarfodydd.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

- 5.5 Mae'r rhagamcan o gostau gwirionedd gwasanaethau cefnogol y corff atebol yn adlewyrchu'r ffigyrau a gafodd eu cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21.

Cyd-bwyllgor

- 5.6 Amcangyfrifir gorwariant o £12,000 ar y pennawd cyllideb cefnogaeth gyfreithiol allanol, yn bennaf yn sgil gwaith yn gysylltiedig â Chytundeb Llywodraethu 2 a Chytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Amcangyfrifir tanwariant o £15,000 ar bennawd cyllideb y Bwrdd Cyflawni Busnes, i roi tanwariant net o £3,000 ar y cyd-bwyllgor.

Cyfraniadau Ariannu

- 5.9 Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi derbyn £155,000 ar gyfer Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2021, a dim ond £54,747 sydd wedi'i hawlio hyd yma.
- 5.10 Derbyniwyd llythyr dyfarnu grant cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) ym mis Mai 2020 gyda chyllid o £2,900,145 wedi'i gymeradwyo i ariannu swyddi o fewn y Swyddfa Rhaglen hyd at fis Mehefin 2023. Yn seiliedig ar ein rhagamcan o wariant ar weithwyr o £635,463 ar gyfer 2020/21, ynghyd â gwariant ar gyfer y cyfnod ôl-weithredol i fis Gorffennaf 2018, gellid derbyn £646,972 o gyllid grant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nid yw'n debygol y bydd arnom angen yr incwm o'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi yn 2020/21 yn sgil derbyn y grant ESF wedi'i ôl-ddyddio.

6. Gobygiadau Staffio

- 6.1 Mae'r amcangyfrif o'r sefyllfa alldro ar gyfer 2020/21 yn adlewyrchu recriwtio sydd wedi digwydd yn y misoedd diwethaf, ynghyd â recriwtio sy'n debygol o gael ei wneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

- 7.1 Cyflwynwyd Atodiad 1, ynghyd â chrynodeb o gynnwys yr adroddiad hwn, i'r Grŵp Gweithredol ar 9 Hydref 2020.

8. Atodiad

Atodiad 1 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2020/21 - Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2020).

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:

Awdur yr adroddiad hwn.